

# Mwy am farddoniaeth

*“O ddyfnder cyfoeth Duw, ... Mor anchwiliadwy ei farnedigaethau, mor anolrheiniadwy ei ffyrdd!” (adn. 33)*

## Beth am ddarlflen Rhufeiniaid 11:25–36 ac yna myfyrio

Daliwn ati i feddwl am y datganiad yr edrychom ni arno ddoe: “Dydy Duw ddim yn ymfrydu yn ein dileu a’n golygu ni, ond mae o wrth ei fodd gyda’n barddoniaeth.” Dywed G.K. Chesterton yn ei lyfr *The Romance of Faith*, pan fyddwch chi’n wynebu bywyd gyda gonestrwydd fe ddowch yn ymwybodol bod chwaraewyr gwyddbwyll yn mynd yn orffwyll ond nad ydy beirdd byth yn gwneud hynny. Mae Chesterton yn defnyddio gormodiaith, wrth gwrs – ond i bwrpas. Mae’r chwaraewr gwyddbwyll wrthi’n barhaus yn ystyried ei strategaeth, ac yn ceisio canfod rhyw drefn er mwyn deall pethau. Wrth imi wyllo fy hoff raglen deledu ychydig yn ôl – *Star Trek: The Next Generation* – fe glywais i Commander Data yr Android yn dweud bod yn well ganddo fo wyddbwyll i farddoniaeth am ei fod yn teimlo’n fwy cyfforddus gyda threfn y gellid ei rheoli. Ond, wrth gwrs, does gan Android ddim emosiwn. Mae bardd yn sylweddoli bod yna drefn mewn bywyd, ond dydy o ddim yn ymdrechu i geisio ei deall; yn hytrach, mae o’n nofio ar y tonnau a mynd i mewn i’r dirgelwch trwy gyfrwng barddoniaeth.

Pan wynebir ni â dirgelwch stori Duw yn ein bywydau, mae gennym ni ddau ddewis: un ai fe awn ati i geisio darganfod beth yw ffyrdd Duw a mynd ati efo siswrn y golygydd i ddileu rhai pethau, neu fe allwn ymateb trwy nofio ar donnau ei fwriadau ef, gan ddweud: “Arglwydd, rydw i’n dy foli di am nad oes modd olrhain dy ffyrdd di,” fel mae Paul yn ei wneud yn y darn a ddarllenom heddiw. Mae beirdd yn adnabod dirgelwch ac yn gorfoleddu ynddo heb geisio ei reoli.

Peidiwch â cheisio gwneud synnwyr o ddirgelwch pan fyddwch chi’n cael eich hun yn ei ganol. Gorfoleddwch ynddo. Mae holl hanfod bywyd yn gofyn ar inni fod yn feirdd yn hytrach na chwaraewyr gwyddbwyll. Gwyn eu byd y rheiny sy’n caniatáu iddyn nhw eu hunain ryfeddu at yr hyn mae Duw’n ei wneud yn eu bywydau ac yn ymateb iddo gyda rhythm barddoniaeth a mawl.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Job 9:1–12; Col. 2:2–4

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Job yn mynd ati i ddisgrifio daeargryn a chlip ar yr haul yn farddonol?
2. Beth sydd gennym os oes gennym ddirgelwch Duw?

## Gweddi

O Dad, helpa fi i ymateb i ddirgelion bywyd yn yr un ffordd ag y gwnaeth Paul – nid trwy ymdrechu i weithio popeth allan, ond trwy ymgrymu mewn rhyfeddod, cariad a mawl. Amen.